| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Hydref 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Cap ar Indemniad Aelodau ar gyfer Cwynion Cod Ymddygiad** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn am gael argymell i'r Cyngor y dylid capio'r indemniad sydd ar gael i'r Aelodau sydd ynghlwm â gwrandawiadau Cod Ymddygiad ar uchafswm o £20,000.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae trafodaethau wedi bod ledled Cymru ynglŷn ag ystod yr indemniadau a ddarperir i Aelodau gan Awdurdodau Lleol, wrth iddynt eu hamddiffyn eu hunain yn erbyn achosion honedig o fynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

2.2 Mynegwyd pryderon ynglŷn â graddfa'r indemniad a ddarparwyd gan awdurdodau lleol i Aelodau mewn amgylchiadau o'r fath gan, ymysg eraill, CLlLC, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) a Chadeirydd Panel Dyfarnu Cymru.

2.3 Bydd yr Aelodau yn cofio yn gynharach eleni eu bod wedi trafod llythyr gan yr Aelod Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd ynglŷn a'r fframwaith moesol sy'n cynnwys cyfeiriad at gap gwirfoddol ar indemniad gan awdurdodau lleol. Rhoddodd y Pwyllgor eu cefnogaeth ar gyfer mesur o'r fath.

2.4 Roedd yr Ombwdsmon yn wreiddiol wedi cynnig cap o £10,000 ond mae Cyngor CLlLC wedi cymeradwyo cap o £20,000 ar y sail bod y lefel a gynigiwyd gan yr Ombwdsmon yn annigonol oherwydd cymhlethdodau rhai achosion.

2.5 Cytunodd Cyngor CLlLC hefyd y dylai awdurdodau lleol ystyried fesul achos a ddylid rhoi indemniad, ac i ba lefel, ond na ddylai unrhyw indemniad fod yn fwy na £20,000.

2.6 Y sefyllfa yn Sir Ddinbych yw bod gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y pŵer i ystyried y lefel cynrychiolaeth proffesiynol i Aelod dan delerau'r math o indemniad i'r Aelodau a swyddogion a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23 Medi 2008.

2.7 Mae gan y lefel indemniad oblygiadau nid yn unig o ran rheoli'r potensial ar gyfer costau cyfreithiol sylweddol, ond hefyd yr effaith ar amser uwch swyddogion y Cyngor a gweision cyhoeddus eraill.

2.8 Mae hefyd y potensial, yn absenoldeb cap, y bydd 'ras arfau' cyfreithiol e.e. lle bydd un parti yn gofyn am gyngor arweiniol, bydd y llall yn teimlo'r angen i roi gwybod am sefyllfa gyfatebol a phrofiad sy'n arwain at gynnydd mewn costau.

2.9 Mae'r Ombwdsmon wedi cytuno, ym mhob achos, na fydd ei gostau cyfreithiol ei hun yn cael pasio'r lefel a nodwyd gan y cap arfaethedig.

2.10 Os yw'r Pwyllgor o blaid argymell y cap arfaethedig i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyngor, bydd telerau'r math o indemniad yn cael eu diwygio trwy gynnwys y geiriau mewn italeg yn y ddogfen a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 3 ARGYMHELLION

Dylai'r Aelodau argymell i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyngor:-

3.1 Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried bob cais, fesul achos, ar gyfer indemniad costau er mwyn penderfynu a ddylid rhoi indemniad i bawb.

3.2 Os, mewn unrhyw achos unigol, y bydd indemniad yn cael ei roi mewn perthynas â materion yn ymwneud â mynd yn groes i God Ymddygiad yr Aelodau, dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol benderfynu ar swm yr indemniad hyd at uchafswm o £20,000.

3.3 Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor a'r math o indemniad yn ôl yr angen i adlewyrchu'r penderfyniadau hyn.